OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 13

CYMORTH I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG SYDD AG ANABLEDDAU

### Ceisiadau am gymorth

**96.**—(1) Rhaid i berson (y "ceisydd") wneud cais am grant o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â phob blwyddyn academaidd ar gwrs ôl-radd dynodedig drwy lenwi a chyflwyno i Weinidogion Cymru gais ar unrhyw ffurf a chan ddarparu unrhyw ddogfennau y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn amdanynt.

(2) Rhaid i'r cais gyrraedd Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn penderfynu a yw'r ceisydd yn fyfyriwr ôl-raddedig cymwys, a oes gan y ceisydd hawl i gael grant a swm y grant sy'n daladwy, os oes grant yn daladwy o gwbl.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd—

(a) P'un a oes gan y ceisydd hawl i gael grant neu beidio;

(b) os oes gan y ceisydd hawl, y swm sy'n daladwy mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd, os oes swm yn daladwy o gwbl; ac

(c) sut y dyrennir y swm hwnnw rhwng y mathau o wariant cymwys.